# COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 20 – 04 – 2026

Cofnodion Drafft Cyfarfod Misol Nos Lun Ebrill 20ain 2026 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

**1.** **04/26 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Ken Howell,Cynghorwyr: John Crossley, Delyth Evans, Richard Evans, Angharad Edwards, Jamie Ayres, Aled Eynon, Marc Rees, Gethin Richards, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith, Adrian Thomas.
Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn bresennol: Cyng Sir Hazel Evans a'r Cyfieithydd

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Clerc a'i chymar ar ddathlu ei Priodas Aur yn ddiweddar.

**2.** **04/26 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Eleri Samson,

**3.** **04/26 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Neb

***4.*** **04/26 HEDDLU:** – PCSO J Kedward – *ymddiheiriad -. Gofynnwyd i'r Clerc rhoi gwybod iddo am y parcio unwaith yn rhagor ar waelod cyffordd Pensarn yn Drefach*

**5.** **04/26 COFNODION:**
i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 30ain 2026
Cynnig: Cyng Angharad Edwards — Eilio: Cyng Richard Evans

**6.** **04/26 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *delio dan adroddiadau pwyllgor*
10. ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *mae'r les yn barod i'w arwyddo. Bydd y Clerc yn holi pwyllgor y Parc a ydynt wedi arwyddo gyda'r cyfreithiwr.*
7.xix. 05/25 Les Toiledau Parc Puw – *aros i'r Cyngor Sir anfon y ddogfen wedi arwyddo a selio gyda'r Sir ac yna bydd y gwaith trwsio yn cael ei wneud*
10.i. 02/25 Diffibrilwr i Cwmpengraig - *diweddariad – mae'r Clerc wedi casglu'r diffibrilwr, aros nawr i gael y bocs ac yna cael rhywun i'w osod ar y wal yn Soar. Derbyniodd padiau newydd i roi ym mocs Bancyffordd.*

**7.** **04/26 GOHEBIAETH:**
i. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 23/03/2026 - 27/03/2026 – cylchlythyrwyd
ii. ebost – CSG – *Cau Ffordd Dros Dro – yr U5466 o Rhos, Llandysul – cylchlythyrwyd*
iii. ebost – CSG – Cau Ffordd Dros Dro U5401, Rhiwberfe, Pentre-Cwrt, Llandysul – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSG – Ceisidau Cynllunio 30/03/2026 - 03/04/2026 – cylchlythyrwyd
v. ebost – CSC – cau ffordd dros dro – C1141 o Bentre-cwrt, Llandysul – cylchlythyrwyd
vi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro - yr U5401 Rhiwberfe, Pentre-cwrt, Llandysul – cylchlythyrwyd
vii. ebost – CSG – Rhwystr Dros Dro Heol Henfryn, Pentre-Cwrt – cylchlythyr
viii. ebost – EFFAITH – cylchlythyr allanol pob mis Llais – cylchlythyrwyd
ix. ebost – ULlC – Cymru Wledig – Cyfleoedd Lleoliad Cymru – cylchlythyrwyd
x. ebost – ULlC – E-bwletin 21 – cylchlythyrwyd
xi. ebost – CSG – Shannen Rees – Toiledau Parc Puw – *wedi derbyn y les wedi ei arwyddo gan y Cyngor Bro*
xii. ebost – Jeff Kedward - Cyber Alert Guidance Reminder – New Training Dates Added – cylchlythyrwyd
xiii. ebost – ULLC – E Bwletin 22 – cylchlythyrwyd
xiv. ebost – Y L Smart – Torri Coed yn Waungilwen – cylchlythyrwyd – *dwedodd Cyng K Howell bod y mater wedi cael ei hysbysu i'r Cyngor Sir.*
xv. ebost – CSG – Cau Ffordd Dros Dro - yr U5466 o Rhos, Llandysul – cylchlythyrwyd
xvi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro - C1296 Felindre, Llandysul - temporary road closure - cylchlythyrwyd
xvii. ebost – Sabel Thomas – pryder am or-yrru - cylchlythyrwyd – *awgrymwyd y dylai'r deiliad gysylltu a Go Safe Wales*
xviii. ebost – CSG – Cau Ffordd Dros Dro - Yr U5406 Parc Puw i Langeler, Felindre, Llandysul - cylchlythyrwyd
xix. ebost – CSG – Cau hewl dros dro C1301 Bancyffordd, Llandysul SA44 4SE – cylchlythyrwyd
xx. ebost – CSG – Shannen Rees – toiledau Parc Puw – *nododd y byddem yn clywed wrth yr adran gyfreithiol cyn hir.*
xxi. ebost – CSG – adran gyfreithiol – toiledau – *nodi mor gynted bydd y Sir wedi arwyddo bydd y gwaith trwsio'n cael ei wneud ac yna bydd cyfrifoldeb, trydan, dŵr ac yswiriant yn cwympo ar y Cyngor Bro*
xxii. ebost -U LlC – Prosiect Argfwng Costau Byw - Gwbodaeth ac Adnoddau - cylchlythyrwyd
xxiii. ebost – CSG – Ceisidau Cynllunio 13/04/2026 - 17/04/2026 - cylchlythyrwyd
xxiv. ebost - CSG – Darren King – ateb am hewl Penboyr – roedd y Clerc wedi cwyno ac anfon lluniau fewn am gyflwr yr hewl ym Mhenboyr ac yn enwedig cyflwr y ffordd draw am yr eglwys lle mae perygl iddi gwympo mewn uchwben y nant – *dwedodd Cyng H Evans bod swyddogion y Sir yn dod allan yfory(21ain) i asesu'r sefyllfa ac ystyried y ffordd i delio a'r mater .*

**8.** **04/26 CYNLLUNIO**
**CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI LLAWN**
PL/09778 - Penderfyniad ar yr Apêl
Safle : Penyffynnon, Cwmduad, Carmarthen, SA33 6AU
Datblygu: high end static caravan/lodge to be used as a holiday let (Resubmission of PL/07732)
Cyfeirnod: CAS-04590-N4V4K8 – Penderfyniad ar yr Apêl : Diystyru

____________________Cadeirydd ___________________________Dyddiad

COFNODION DRAFFT

ENF/01442 - Penderfyniad ar yr Apêl
Safle: Derw Mill North, Pentre-Cwrt, Llandysul, SA44 5DB
Datblygu: Heb ganiatâd, newid defnydd sylweddol o hen felin o ddefnydd cymysg o breswyl a melin bren/saernïaeth fasnachol i ddefnydd cymysg o breswyl, melin bren/saernïaeth fasnachol a dwy uned o lety gwyliau
Cyfeirnod: CAS-04388-M6P5Z6
Penderfyniad ar yr Apêl : Diystyru

**PL/10711** - Gosod fferm solar gyda chynhwysedd cynhyrchu hyd at 4.9MW (AC) am gyfnod dros dro o 30 mlynedd, gan gynnwys seilwaith cysylltiedig, canolfan gysylltu grid barhaol a gwelliannau amgylcheddol - Ty Maen, Rhos, Llandysul, SA44 5AH – *codwyd pryder am yr holl drafnidiaeth fyddai ar y trigolion tra bod y fferm yn cael ei adeiladu. Y Cyngor o'r farn bod yr hewl yn gul a bod angen gwella'r arwynebedd ar gyfer y traffig trwm fyddai'n debygol o deithio arni ar gyfer y gwaith adeiladu.*

**9. 04/26 MATERION ARIANNOL**

**1.** Cyllid – Cyfrif Cyfredol - Arian yn y Banc ar - *17/04/2026* .......... £18,247.50
Cyfrif wrth Gefn 17/04/2026 [yn cynnwys llog £313.31] .......... £46,458.10

**2. a. Anfonebau**

i. TRYWYDD [Ebrill] .......... £
ii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd ] .......... £17.00
iii. LLOYDS BANK [ffi] .......... £8.25
iv. ANTUR CYMRU [ffi TWE] .......... £86.40
v. Tenby & Saundersfoot Community First Responders .......... £1,005.00
[Cafwyd caniatad cyfarfod diwethaf i'w dalu Pads £55.00 , Defib £950]
vi. T & S C F Responders Bocs Defib .......... £425.00
vii. Clerc - Costau Teithio i gasglu'r Defib 30milltir@ .45c y filltir .......... £13.50

**b. S/O**

Cyflog y Clerc .......... £580.00

**3. Credid**

Rhent Cwmins Cwmhiraeth .......... £225.00

**4. Apêl am Nawdd Ariannol**

Dim

**10. 04/26 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

i. Cwmins Cwmhiraeth - Codwyd y mater, gan denant Cwmins Cwmhiraeth, bod defaid sy'n crwydro ar yr hewl yn cael eu troi mewn i'r cae a'i bod nhw fel tenantiaid yn methu cael defnyddio'r cae. - *Cytunwyd y gellir unwaith bydd y defaid allan o'r cae i rhoi clo ar y gât.*

**11. 04/26 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Is Bwyllgor Byrddau Llwybrau Gwlân – gwelwyd dau enghraifft o arddulliau posibl ar gyfer golwg orffenedig y bwrdd Gwybodaeth. *Yn dilyn yr hyn roedd gan y Cynghorydd J Ayres ddweud cytunwyd y byddai'r is-bwyllgor yn gwneud penderfyniadau angenrheidiol ac yna dod yn ôl ag unrhyw fater o bwys i'r cyngor llawn.*

**12. 04/26 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad**

Nos Lun Mai 18ed 2026 am 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Penboyr – bydd cyfarfod wythnos yn gynt oherwydd Gŵyl y Banc

**13. 04/26 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

1. Cyng. D Evans – i mae'r encilfa yn dechrau cael ei chlirio er bod rhywun wedi dympio dau fag du yno. – *Dwedodd y Cyng. H Evans taw'r Cyngor Sir oedd wedi dympio stwff yno ac mae'nt yn y broses o'i glirio*
ii. llongyfarchod Cyng R Evans ar ei ymddeoliad fel o'r bwrdd Fferyllfeyd ar ôl 19 mlynedd
2. Cyng M Rees – i. Dwedodd bod yr arwydd at Cwmhiraeth wedi torri yn ei hanner a bod un arwydd yn dweud 20mya un ochr o'r hewl a 30mya ochr arall

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

____________________________Cadeirydd __________________________Dyddiad

COFNODION DRAFFT

COFNODION DRAFFT